

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/00446/22
Cyng Elwyn Jones
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

04 Awst 2022

Annwyl Cyng. Elwyn Jones,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig Gorffennaf 14. Hoffwn ymuno â chi i longyfarch tîm cenedlaethol y dynion ar eu llwyddiant rhagorol, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant i'r tîm yn eu hymdrechion.

Rwy'n cytuno bod llwyddiant y tîm wrth gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022 wedi darparu llawer o gyfleoedd pwysig a chyffrous i hyrwyddo ein gwlad, ein gwerthoedd unigryw, a sicrhau gwaddol ym maes chwaraeon i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cyfleoedd i arddangos Cymru i'r byd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gyda'n rhanddeiliaid, gan adeiladu ar y bartneriaeth cryf sydd eisoes yn bodoli rhwng Croeso Cymru a Chymdeithas Bêl-Droed Cymru. Bydd hyn yn golygu defnyddio'r Gymraeg fel un o brif bileri'n gweithgareddau, gan efelychu'r hyn a wnaethom yn ystod trnamaint Ewro 2016.

Hoffwn ddiolch i chi am eich geiriau caredig a'ch cefnogaeth barhaus yng Nghyngor Gwynedd.

Yn gywir

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.